Ar Gyfer Pawb

Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (ED&I)

Ar gyfer ein Cwsmeriaid a'n Rhanddeiliaid Ni

Fersiwn darllen hawdd

Pwrpas

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Rydyn ni'n defnyddio Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad (ED&I) ym mhob peth rydyn ni'n ei wneud.

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn golygu:

- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n deg â phawb.
- Ein bod ni'n cynnwys pawb ar draws Cymru.
- Bod pawb yn rhan o beth rydyn ni'n gwneud.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi pobl o bob cefndir a phrofiad.

Datganiad Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad

Mae rheolau ynglŷn â bod yn deg ac yn gyfartal.

- Dogfen Dyfodol Mwy Disglair
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru).
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae bod yn deg i bawb yn ein gwneud ni'n well ar gyfer y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

Mae'n rhan o waith pawb i wneud yn siŵr ein bod ni'n deg gyda phawb.

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n staff ni a'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw i wneud yn siŵr y gallwn ni weithio gyda phob cymuned yng Nghymru. Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i sicrhau nad oes dim byd yr ydyn ni'n ei wneud yn ein hatal ni rhag gweithio gyda phawb.

I bwy mae'r polisi yma?

Mae'r polisi yma yn dangos beth rydyn ni ei eisiau pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd a gyda'r cyhoedd.

Mae angen i ni wrando, gwerthfawrogi, cefnogi a pharchu ein gilydd.

Rydyn ni wedi ysgrifennu

Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS).

Mae hyn yn dweud mwy wrthych chi am sut y byddwn ni'n gwneud pethau'n fwy teg.

Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn Gyrfa Cymru

Tegwch

Gallwn ni gael gwasanaeth teg drwy fod yn deg i bawb, helpu pobl i oresgyn pethau ac atal pobl rhag cael eu trin yn wael oherwydd pwy ydyn nhw.



Amrywiaeth

Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynnwys a'u parchu. Mae hyn yn gwneud i bobl deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi.

Cynhwysiad

Gwneud yn siŵr nad oes neb yn teimlo'n anghyfforddus a bod pawb yn cael eu clywed.

Ymrwymiad Gyrfa Cymru

Rydyn ni'n cefnogi cwsmeriaid i wneud penderfyniadau ar addysg, hyfforddiant a'r gwaith.

Bydd Gyrfa Cymru yn:

- Gwneud yn siŵr bod ED&I yn rhan o'r hyn rydyn ni'n gwneud bob dydd.
- Gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi.
- Gwneud yn siŵr y gall pawb gael mynediad i wasanaethau a chyflogaeth.
- Gwneud yn siŵr nad ydyn ni'n goddef ymddygiad sy'n dangos diffyg parch.

- Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i staff i hybu a deall ED&I.

- Gwrando ar gwsmeriaid a newid yr hyn sydd angen bod yn well.

deddf cydraddoldeb

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud wrthyn ni pwy sydd angen mwy o gymorth i gael eu trin yn deg:

- Oedran
- Anabledd
- Ailaseinio rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae ymrwymiad Gyrfa Cymru i ED&I yn cynnwys pawb.

Beth fydd ein staff yn ei wneud

Mae'n bwysig bod pawb yn gyfrifol am degwch, amrywiaeth a chynhwysiad yn Gyrfa Cymru.

Mae hyn yn golygu gweithio gyda phobl eraill i wneud yn siŵr bod ED&I ar gael i bawb.

Dylai gweithwyr:

- Wneud yn siŵr nad yw'r hyn maen nhw'n ei wneud yn y gwaith yn achosi tramgwydd i unrhyw un.
- Newid ymddygiad sy'n amhriodol.
- Cefnogi staff eraill sy'n cael eu trin yn annheg.
- Siarad am ymddygiad annerbyniol maen nhw'n ei weld neu'n ei brofi.
- Cael hyfforddiant ED&I.

Yr hyn y bydd ein Bwrdd Cyfarwyddwyr yn ei wneud

Mae'n rhan o waith y cyfarwyddwyr i sicrhau bod Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn rhan o'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn:

- Rhoi cyfarwyddyd i Gyrfa Cymru ar ED&I.
- Edrych ar y cynlluniau mwyaf pwysig.

Cyfarwyddwr gyda Chyfrifoldeb Arweiniol dros Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad

Mae cyfarwyddwr gennym ni sy'n gyfrifol am Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad.

Bydd y Cyfarwyddwr yn:

- Gwneud yn siŵr bod Gyrfa Cymru yn gwneud popeth y mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i ni ei wneud.

- Siarad â Bwrdd Cyfarwyddwyr Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru am y pethau a allai fod yn well.

- Edrych ar unrhyw beth y mae pobl yn dweud wrthyn ni ein bod ni'n ei wneud yn anghywir.

Cyfrifoldeb y Pwyllgor Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad

Mae grŵp yn Gyrfa Cymru sy'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n deg gyda phawb.

Enw'r grŵp yma yw'r Pwyllgor Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad

Bydd staff o bob adran o Gyrfa Cymru yn rhan o'r grŵp.

Bydd y Pwyllgor yn:

- Edrych ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Adolygu'r polisi yma.
- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud yr addewidion Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad sydd yn ein Hadroddiad Hunanwerthuso.

Yr hyn y bydd ein rheolwyr yn ei wneud

Gwaith rheolwr yw gwneud yn siŵr bod pawb yn y gwaith yn cael eu trin yn deg.

Bydd rheolwyr yn:

- Deg ym mhob rhan o'u gwaith.
- Modelau rôl.
- Gweithredu'n gyflym os gwelir ymddygiad tramgwyddus.
- Gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn teimlo'n ddiogel i roi gwybod am unrhyw beth drwg sy'n digwydd.

Yr hyn y bydd y Timau Datblygu Pobl yn ei wneud.

Bydd y Timau Datblygu Pobl yn:

- Edrych ar y polisi Urddas a Pharch yn y Gwaith.
- Rhoi hyfforddiant a dysgu sy'n ein gwneud ni'n well.
- Cefnogi gweithwyr gyda materion Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad.

Y cyfreithiau y mae'n rhaid i ni eu dilyn

Mae angen i Gyrfa Cymru ddilyn y cyfreithiau a'r rheolau sy'n dweud wrthyn ni sut i fod yn weithwyr da. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dysgu o beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn.

Mae gweithdrefn adborth a chwynion Gyrfa Cymru yn golygu y gall pobl ddweud os nad yw rhywbeth yn iawn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â Thegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn cael ei harchwilio a'i hadrodd i Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn rhoi 'Pawb - Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiad' a gwybodaeth arall ar ein gwefan.

Bydd unrhyw wiriadau ar Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad nad ydynt yn ddigon da yn cael eu rhannu gyda'r pwyllgor ED&I a'r tîm rheoli.

Mae Gyrfa Cymru yn gwirio i weld a ydyn ni'n gwneud pethau'n dda. Mae hyn yn cael ei alw'n hunanwerthuso.

Byddwn ni'n edrych ar y pethau da a'r pethau drwg gyda gwasanaethau.